# Tymor y Gwanwyn (ii) 2019 – Blynyddoedd 1 a 2




YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

## Thema'r hanner tymor yw: Archarwyr

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

### Datblygiad Creadigol

- Astudio delweddau o archarwyr. Creu archarwyr dychmygol gan ddefnyddio pecyn TGCh.
- Astudio cerddoriaeth sy'n cael ei ddefnyddio i bortreadu archarwyr mewn cartwnau neu ffilmiau. Cyfansoddi cerddoriaeth eu hunain i bortreadu archarwyr.
- Symud yn greadigol i gerddoriaeth archarwyr.

### Datblygiad Mathemategol

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu i ffwrdd a chyfri mewn camau.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur pwysau a datblygu ein sgiliau datrys problem.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Blwyddyn 2)

### Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu

- Creu cornel chwarae rôl 'Ffau'r Archarwyr' a mwynhau anturiaethau o bob math!
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan ganolbwyntio ar ysgrifennu **straeon naratif am fydoedd ffantasi a stribedi comic syml.**
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

### Addysg Grefyddol: Arwyr ac Arweinwyr

- Dysgu hanes Dewi Sant
- Trafod nodweddion arwyr a thrafod pwy sy'n arwyr i ni.
- Trafod stori'r Pasg

### Sgiliau Cymhwysedd Digidol:

- Datblygu sgiliau animeiddio gan ddefnyddio apiau ac offer amrywiol.
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.

### Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Trafod sut mae archarwyr wedi newid dros y blynyddoedd a dysgu am Superted, yr archarwr Cymraeg cyntaf.
- Dysgu enwi rhannau'r corff a sut yr ydym i gyd yn wahanol.
- Dysgu am y synhwyrau sydd gan bobl ac anifeiliaid. Cynnal archwiliadau ac arbrofion a thrafod y canlyniadau.

### Datblygiad Corfforol

- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd
- Datblygu sgiliau dawnsio gwerin.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

### Datblygiad Personol a Chymdeithasol

- Dysgu am bwysigrwydd diet cytbwys a bwyta'n iach.
- Trafod ymddygiad da a drwg.
- Trafod y bobl o'n cwmpas sy'n arwyr i ni.